Rhif yr achos

Rhybudd o gyflwyno cais

Enw'r llys

Enw’r ceisydd

Enw’r 2il geisydd

Enw’r atebydd

1. Rhowch eich enw, neu, os ydych chi’n gyfreithiwr, enw’ch cwmni.

2. Beth yw eich rôl yn y prif achos,

- ☐ ceisydd/deisebydd
- ☐ yr 2il geisydd
- ☐ yr atebydd
- ☐ gyfreithiwr. Pwy ydych chi’n ei gynrychioli?
- ☐ arall (rhowch fanylion)

AT DDEFNYDD GLLTEF YN UNIG

©Hawlfraint y Goron 2026

3. Pa orchymyn ydych chi'n gofyn i'r llys ei wneud, a pham?

Gofynnir ichi atodi copi drafft o'r gorchymyn rydych yn gwneud cais

Nodyn 3: Nodwch pa orchymyn yr ydych yn gwneud cais amdano a pham; e.e. gohirio'r gwrandawiad oherwydd..., cais am ganiatâd i godi fy nghais ysgaru heb fy nhystysgrif priodas oherwydd... ayb. Os ydych yn gwneud cais i amrywio gorchymyn cyfredol neu i ailgychwyn achos dylech nodi'r manylion yma. Rhaid atodi i'ch cais gopi drafft o unrhyw orchymyn yr ydych yn gwneud cais amdano. Dylai'r drafft nodi cyfanswm unrhyw gostau i'w talu gan y parti arall a chyfrifiad byr o sut y cafodd y swm ei bennu.

Mae'n bosibl y bydd barnwr yn ystyried y cais hwn ar sail yr wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn eich rhybudd o gais. Gall y barnwr wneud gorchymyn ar sail yr wybodaeth honno, heb wrandawiad. Fodd bynnag, caiff unrhyw barti sy'n gwrthwynebu gorchymyn wneud cais i'r llys o fewn 7 niwrnod iddo gael ei wneud, am wrandawiad, y gall yr holl bartïon ei fynychu, lle bydd y cais yn cael ei ailystyried.

4. A oes unrhyw resymau pam na ddylai barnwr ymdrin â'r cais hwn ar sail y papurau?

☐ Oes.

☐ Nac oes

Nodyn 4:
Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y bydd y llys yn delio â'r cais 'heb wrandawiad':

- pan fydd pob parti'n cytuno â thelerau'r gorchymyn y gwneir cais amdano;
- pan fydd pob parti'n cytuno y dylai'r llys ddelio â'r cais heb wrandawiad; neu
- pan gred y llys na fyddai gwrandawiad yn addas.

Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae darpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn atal unigolyn sydd wedi ei gyhuddo o gam-drin rhag holi yn bersonol barti neu dyst yn yr achos sydd wedi dioddef y gamdriniaeth, ac mae hefyd yn atal dioddefwr camdriniaeth rhag holi yn bersonol yr unigolyn a gyhuddir mewn amgylchiadau penodol.

Os yw'r llys yn gorchymyn bod yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad lle y gellir rhoi tystiolaeth lafar, efallai y bydd angen llenwi ffurflen **EX740** (unigolyn sy'n gwneud y cyhuddiad o gam-drin) neu ffurflen **EX741** (unigolyn a gyhuddwyd o gam-drin) 'Cais a gwybodaeth sydd ei angen gan y llys i ystyried a ddylid atal (gwahardd) holi (croesholi) yn bersonol' fel y gall y llys ystyried a ddylid atal holi wyneb yn wyneb. Bydd y llys yn anfon y ffurflen briodol gyda'r gorchymyn llys.

Nid oes rhaid ateb Cwestiynau 5-9 os yw'n gais Cyflwyno Tybiedig am ysgariad. Gweler y nodiadau canllaw am ragor o wybodaeth.

5. A oes unrhyw resymau pam na ddylid ymdrin â'r cais hwn mewn gwrandawiad dros y ffôn?

☐ Oes. Ni ddylid ymdrin â'r gwrandawiad hwn mewn gwrandawiad dros y ffôn oherwydd

☐ Nac oes

6. Pa mor hir ydych chi'n credu bydd y gwrandawiad yn para?

☐ awr ☐ munud

7. Ydy pob parti wedi cytuno ar yr amcangyfrif hwn o amser?

☐ Do

☐ Naddo

8. Rhowch fanylion unrhyw gyfnod neu ddyddiad gwrandawiad sydd wedi'i bennu.

9. A oes angen i'r cais hwn gael ei wrando gan farnwr penodol neu farnwr ar lefel benodol?

☐ Oes. Mae'r cais hwn angen cael ei wrando gan (Name or level of judge)

☐ Nac oes

Cais Cyflwyno Tybiedig
(Nid oes rhaid cynnal gwrandawiad gyda'r math hwn o geisiadau)

Gall y Y ceisydd wneud cais i'r llys am gais gyflwyno tybiedig pan fydd ganddo/i dystiolaeth bod yr atebydd wedi cael y cais ysgaru ond nad yw wedi ffeilio cydnabyddiad cyflwyno gyda'r llys. Gall y dystiolaeth fod yn gadarnhad ysgrifenedig fel llythyr, neges e-bost neu neges testun.

Nodyn 5: Nodwch mewn llythyr eglurhaol unrhyw ddyddiadau nad ydych chi ar gael i fynychu yn ystod y chwe wythnos nesaf.

Er mwyn cael gwrandawiad dros y ffôn, rhaid bod gan o leiaf un o'r partïon sy'n ymwneud â'r achos gynrychiolaeth gyfreithiol.

Ni fydd gwrandawiad dros y ffôn yn addas ar gyfer pob cais, ac mae'n bosibl y bydd y llys yn gwrthod eich cais.

Nodyn 6: Os nad ydych yn gwybod pa mor hir fydd y gwrandawiad, peidiwch â dyfalu, a gadewch y blychau hyn yn wag.

Nodyn 7: Os oes dyddiad gwrandawiad neu gyfnod treial eisoes wedi'i ddynodi ar gyfer eich achos, nodwch fanylion y dyddiadau hynny yn y blwch.

Nodyn 8: Rhowch y manylion os oes rhaid i'ch achos gael ei wrando gan farnwr penodol neu farnwr ar lefel benodol.

10. I bwy y dylid cyflwyno'r cais hwn?

Rhowch enwau, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost: (Os bydd angen, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau)

11. Ar ba wybodaeth y byddwch yn dibynnu?

☐ y datganiad atodedig.

☐ y cais am ysgariad / diddymiad / dirymiad / ymwahaniad (cyfreithiol).

☐ y datganiad i gefnogi'r ysgariad / diddymiad / dirymiad / ymwahaniad (cyfreithiol).

☐ y dystiolaeth a nodir yn y blwch isod:

(Os bydd angen, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau)

Nodyn 10: Nodwch yn y blwch a ddarperir at bwy yr ydych eisiau i'r llys anfon copi o'r cais.

Os oes angen cadw manylion cyswllt unrhyw un o'r bobl hyn yn gyfrinachol rhag pobl eraill sy'n rhan o'r achos hwn, gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt cyfrinachol **C8**.

Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r manylion cyswllt cyfrinachol hynny.

Nodyn 11: Yn yr adran hon, nodwch yr wybodaeth yr ydych eisiau i'r llys ei hystyried i gefnogi'ch cais. Os ydych am ddibynnu ar:

- **ddatganiad tyst**, ticiwch y blwch cyntaf ac atodi'r datganiad i'r rhybudd cyflwyno cais. Mae ffurflen datganiad tyst ar gael gan swyddfa'r llys, dim ond i chi ofyn.
- **datganiad achos**, ticiwch yr ail flwch os ydych yn bwriadu dibynnu ar fanylion eich hawliad neu'ch amddiffyniad i gefnogi'ch cais.
- **tystiolaeth ysgrifenedig ar y ffurflen hon,** ticiwch y pedwerydd blwch a nodi'r manylion yn y bwlch a ddarperir. Rhaid i chi hefyd lenwi'r datganiad gwirionedd. Efallai y dygir achos o ddirmyg llys yn erbyn rhywun sy'n llofnodi datganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw ddalennau parhau yn wir.

☐ **Creda'r ceisydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw ddalennau parhau yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

☐ Mae'r **atebydd** yn credu bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac unrhyw ddalennau parhau, yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan yr atebydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Y Ceisydd

☐ Yr Atebydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y Ceisydd(fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol yr atebydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni eich cynrychiolydd cyfreithiol

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

Cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau

Llenwch yr adran hon dim ond os ydych eisiau newid eich cyfeiriad ar gyfer cyflwyno. Bydd y llys yn defnyddio'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth a ddarparwyd gennych yn eich achos ysgariad, diddymiad neu ymwahaniad (cyfreithiol) os nad ydych yn darparu un yma.

Os nad ydych chi eisiau i'r person arall neu'r bobl eraill yn yr achos wybod eich manylion cyswllt chi, na manylion unrhyw geisydd arall, gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu manylion cyswllt cyfrinachol rydych am eu dal yn ôl.

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn (dewisol)

Os bydd angen i'r llys gysylltu â chi, bydd yn gallu gwneud hynny'n gyflymach os byddwch yn darparu eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn.

Ni ddylai'r cyfeiriad e-bost fod yr un peth â'r un a roddwyd ar gyfer eich gŵr/gwraig/partner sifil.

Ffi'r llys

Beth sydd angen i chi ei dalu

ffi'r llys yw

Sut i dalu ffi'r llys

☐ **Nid wyf wedi cynnwys y taliad oherwydd**

☐ Rwyf wedi gwneud cais am Help i Dalu Ffioedd ar-lein, a fy nghyfeirnod yw

H	W	F						

☐ Rwy'n gwneud cais am Help i Dalu Ffioedd, gweler y ffurflen **EX160** ynghlwm

☐ Arall – eglurwch pam

☐ **Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd**

☐ Mi dalaf dros y ffôn.

☐ Anfonwch neges e-bost ataf gyda'r manylion talu. Fy nghyfeiriad e-bost yw

☐ Rwy'n atodi **siec neu archeb bost,** a wnaed yn daladwy i 'GLlTEF'

☐ **Manylion cyfrif ffi – i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol**

Rhif eich cyfrif

P	B	A							

Eich cyfeirnod (os yw'n berthnasol)

Anfonwch eich cais wedi'i lenwi a chopïau ohoni i'r llys sy'n rheoli eich achos.

Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriadau yma:
https://www.find-court-tribunal.service.gov.uk/?lng=cy

Ffi'r llys
Gallwch ddod o hyd i'r ffi gyfredol yn y daflen EX50 Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu y gellir ei lawrlwytho o: https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms

Os na allwch fforddio ffi'r llys

Efallai na fydd rhaid i chi dalu ffi, neu efallai y byddwch yn cael gostyngiad os mai dim ond ychydig o gynilion a buddsoddiadau sydd gennych, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os ydych ar incwm isel.

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thribiwnlys ar-lein yn www.gov.uk/help-with-court-fees neu drwy'r ffurflen 'EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd' a'r cyfarwyddyd 'EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd'.

Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Dylech gysylltu â'r llys sy'n rheoli eich achos i dalu ffi'r llys dros y ffôn.

Cyfrif ffioedd – ffordd i gyfreithwyr, awdurdodau lleol a defnyddwyr rheolaidd eraill wneud taliadau sy'n ymwneud ag achosion sifil a theulu.